

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
6 Tachwedd 2014 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr Sioned Williams, Dafydd Iwan, Geraint R. Jones, Gwyneth Thomas, Christopher Hughes, Ifor Dylan Williams, Emyr Williams, Edd Huws, Rhys Pugh
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

Cyflwyniad swyddogion tramwy Cyngor Gwynedd

Cafwyd cyflwyniad gan Gerallt Jones, Arolygwr Llwybrau Cyhoeddus a Dewi Wyn Owen, Uwch-swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd

Bu trafodaeth gyffredinol ar lwybrau cyhoeddus, a'r problemau cyffredinol sy'n codi o'u herwydd.

Trafodwyd hefyd yr oblygiadau pe byddai Cyngor Cymuned Y Bontnewydd yn penderfynu cymryd cyfrifoldeb am y llwybrau ym mhlwyf Bontnewydd.

Tra gall Cyngor Gwynedd roi grant i Gynghorau Cymuned ysgwyddo'r cyfrifoldeb am lwybrau cyhoeddus yn eu hardal, nid yw telerau'r grant cystal ag y bu yn y gorffennol.

Mae Cyngor Gwynedd wrthi ar hyn o bryd yn ail gategoreiddio llwybrau cyhoeddus. Byddant yn ymgynghori gyda'r Cynghorau Cymuned cyn cyhoeddi rhestr derfynol.

Croesawa Cyngor Gwynedd unrhyw gymorth y medr Cyngor Cymuned Y Bontnewydd ei roi, e.e. adrodd am arwyddion diffygiol, cerdded y llwybrau ac adrodd am unrhyw broblem.

1. YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Ian Jones

2. DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Iwan fuddiant yn eitem 8.1, gan ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor y Ganolfan

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd. Cynnig: Geraint R. Jones

Eilio: Dafydd Iwan

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :
Cofnodion cyfarfod TACHWEDD 2014

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Porth Eglwys Sant Baglan

Mae'r Clerc yn disgwyl ateb pellach gan adran eiddo'r Eglwys yng Nghymru, er mwyn sicrhau na fu trosglwyddiad eto wedi 1991, pryd y trosglwyddwyd yr Eglwys, ond nid y tir i Ffrindiau Eglwysi Di-gyfaill. Yn ogystal, disgwylir ateb gan Gyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y fynwent, er mwyn deall sut a phryd y trosglwyddwyd y cyfrifoldeb hynny iddynt.

4.2 Cylchdro Glan Beuno

Mae'r Asiantaeth Priffyrdd wedi cynnal astudiaeth bellach, ac wedi paratoi cynllun drafft sy'n golygu cael gwared â'r lôn sy'n mynd i'r dde i gyfeiriad Caethro, wrth agosáu at y cylchdro tra'n teithio drwy Bontnewydd i gyfeiriad Caernarfon. Drwy wneud hyn, gellir symud yr allanfa o stad Glan Beuno yn agosach at y cylchdro gan wella'r gwelediad.

Cytunwyd mewn egwyddor efo'r bwriad, ond gofynnwyd i'r Clerc ofyn i'r Asiantaeth Priffyrdd am gopi llawn o'r astudiaeth yn gyntaf.

4.3 Maes Chwarae Llwyn Beuno

Ysgrifennodd y Clerc at Lywodraethwyr Ysgol Bontnewydd gan ofyn a fyddai'n bosibl i'r cyhoedd ddefnyddio maes chwarae'r ysgol. Ymateb y corff llywodraethol oedd y byddent yn fodlon rhoi mynediad cyhoeddus i faes chwarae'r ysgol tan 17:30 bob nos yn ystod yr wythnos, tra bod y gofalwr o gwmpas.

Cytunwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at y Corff Llywodraethol gan ddiolch am y cynnig yma.

4.4 Cyffordd Lôn Groes a Mynedfa Plas y Bryn

Mae'r gwaith o baentio llinell wen wrth fynedfa Plas y Bryn a Lôn Groes wedi ei wneud. Gobeithir y bydd hyn yn gwella diogelwch ar y lôn.

4.5 Arosfan fysiau Llanfaglan

Ar gais Cyngor Gwynedd, ysgrifennodd y Clerc at y preswylwyr sy'n byw gerllaw Parc y Plwyf i ofyn am eu barn pe byddai'r arosfan fysiau presennol yn cael ei symud at Barc y Plwyf.

Cafwyd dau ymateb yn gwrthwynebu ar sail diogelwch, gan yr ystyrid y byddai disgyblion yn gorfod camu allan i'r ffordd i ddal y bus rhwng y ceir sydd fel arfer wedi eu parcio ar y ffordd o flaen Parc y Plwyf.

Mae'r Clerc wedi danfon y sylwadau at Gyngor Gwynedd, ond heb eto dderbyn ymateb.

Awgrymodd y Cynghorydd Ifor D. Williams y dylid gofyn am farn rhieni'r disgyblion a chytunwyd y byddai'n darparu manylion cyswllt i'r Clerc.

4.6 Goryrru yn Llanfaglan

Derbyniwyd data mwy diweddar gan yr Heddlu sy'n deillio o'u hymweliadau penodol i dargedu gyrwyr sy'n goryrru.

Dengys y data gyflymder cyfartalog o 32.1 mya ym Montnewydd a 30.4 mya yn Llanfaglan.

4.7 Gwersylla ger y Foryd

Bu cwynion pellach am barcio cerbydau ger y Foryd yn ystod hanner tymor. Bu un cerbyd yn parcio yno am rai diwrnodau, ac mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder am hyn.

Mynegwyd pryder hefyd fod diffyg is-ddeddfau a phwerau gorfodaeth yn golygu na all Cyngor Gwynedd reoli unrhyw barcio a gwersylla tymor hir.

Cytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu eto at Gyngor Gwynedd ac yn pwysu fod is-ddeddfau yn cael eu gwneud, yn gwahardd parcio a gwersylla tymor hir ar ardaloedd penodol ger y Foryd, yn enwedig ar y darn tir gwair eang hwnnw lle bu'r prif broblemau yn ystod yr haf.

4.8 Trosedd ym Montnewydd

Adroddodd y Clerc fod yr Heddlu wedi aresti dau berson lleol am ddwyn llechi ym Montnewydd.

Bu difrod hefyd i arwyddion 30 mya yn Saron a Llanfaglan, ac mae hyn wedi ei adrodd i'r Heddlu.

4.9 Parcio Lôn Groes

Cysylltodd y Cynghorydd Gwyneth Thomas â phreswylwyr Lôn Groes, gan ofyn iddynt arwyddo llythyr i'w ddanfôn at Gyngor Gwynedd yn gofyn am ddatrysiad i broblemau parcio Lôn Groes. Penderfynwyd fod y Clerc yn danfon y ddau lythyr a dderbyniwyd at Gyngor Gwynedd.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau clerch Hydref 2014

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18

Cyfanswm Net £211.58

5.2 Costau postio £6.36

5.3 Cost glanhau cysgodfanau bysiau, Wyn Williams, Awst 2014 – Hydref 2014, anfoneb rhif 1416, £135.00

6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais cynllunio C14/1011/19/LL - Adeiladu tŷ ar gyfer gweithiwr amaethyddol ynghyd a chodi modurdy a thanc carthion, tir ger Ysgubor Fawr, Llanfaglan, Caernarfon, Gwynedd

Cytunwyd i gefnogi'r cais mewn egwyddor, ond ar y sail fod ystyriaeth yn cael ei ddefnyddio'r adeiladau allanol presennol, yn hytrach na thrwy adeiladu tŷ o'r newydd.

7. GOHEBIAETH

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth:

- Cyfarfodydd Her Gwynedd
- Adroddiad Cynrychiolydd Un Llais Cymru, Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr
- Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Lefel y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru
- Llythyr Aled Roberts AC, - adolygiad o derfynau cyflymder cefnffyrdd
- Ymgyrch Targedu Gyrrwyr Heddlu Gogledd Cymru
- Cwrs Cymorth Cynllunio Cymru
- Holiadur Cyngor Gwynedd, cyfiri'r nifer sy'n cysgu ar y stryd

8. MATERION ERAILL

8.1 Drws tân y Ganolfan

Mae angen drws tân newydd ar y ganolfan, gan fod yr un presennol wedi cyrraedd diwedd ei oes ac yn ddiffygiol. Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Iwan amrywiaeth o brisiau.

Cytunwyd i dalu cost am ddrws tân newydd i'r ganolfan am gost o £656.40 yn cynnwys cludiant. TAW yn ychwanegol.

Mynegodd y Cynghorydd Christopher Hughes y byddai'n bosibl y byddai Hwyl y Bont yn medru gwneud cyfraniad ariannol tuag at y gost.

8.2 Grant Presenoldeb ar y We Cyngorau Cymuned a Thref

Nid yw Cyngor Gwynedd bellach yn darparu grant i Gyngorau Cymuned ddarparu gwefan ar y cyd. Fodd bynnag mae'r opsiwn o wneud cais am grant o hyd at £500 drwy Gist Gwynedd, ar gyfer gwefan unigol yn parhau.

Cytunwyd fod y Clerc yn gwneud cais i Gist Gwynedd am y grant.

9. MATERION EITHRIEDIG

Dim mater eithriedig i'w drafod

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 4 Rhagfyr 2014, am 7yh.